@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

**Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd, Ceredigion – YFORY**

Rhannwyd llythyr gyda chi am fanylion yr Eisteddfod Rhanbarth yfory – cliciwch yma i ddarllen y llythyr eto.
Pob dymuniad da i bawb fydd yn cystadlu draw yn y Pafiliwn ym Mhontrhydfendigaid (SY25 6BB)
Bydd yr Eisteddfod Ddawns Rhanbarthol fore dydd Mawrth 12fed yn Ysgol Gyfun Aberaeron. Bydd bws yn cludo'r plant.

**TEKKERS – Blwyddyn 6**

Dymuniadau gorau i rai o ddisgyblion Blwyddyn 6 a fydd yn mynd i ffilmio ar gyfer rhaglen Tekkers ddydd Llun nesaf.
Mae'r cwmni teledu eisoes wedi rhannu'r wybodaeth gyda chi fel rhieni, ac mae'r plant wedi bod mewn cyfarfod Teams i ddeall trefn y diwrnod. Bydd y bws yn gadael yr ysgol fore dydd Llun, yr 11eg o Fawrth am 10:15yb, ac yn dychwelyd i'r ysgol tua 8:00yh.

**Gŵyl Agor Drysau – WYTHNOS NESAF**

***Neges gan Arad Goch:***

*Fe fydd y 10fed ŵyl o AGOR DRYSAU - OPENING DOORS yn cael ei chynnal 12-16/03/24 pan ddaw ymwelwyr o bob cwr o'r byd i Aberystwyth i fwynhau perfformiadau byw o bob math. Dyma gyfle ôl-Brexit ac ôl-Covid19 i artistiaid a chwmnïau o Gymru rannu llwyfannau gyda chydweithwyr o wledydd eraill. Mae'r Ŵyl hefyd yn bwysig i blant a phobl ifanc yr ardal i wylio gwaith rhyngwladol na fyddant yn cael y cyfle ei weld fel arall.*

*Amserlen lawn ar y wefan: https://agordrysau.cymru/ gyda rhywbeth i bawb!*




**DYDD MAWRTH 12fed – BLWYDDYN 6 –** Disgyblion Blwyddyn 6 i fynd i weld 'Yr Hogyn Pren' ar y prom ddechrau'r prynhawn, cyn mynd i Arad Goch ar gyfer gwylio 'Owl at Home'.

**DYDD MERCHER 13eg – PAWB –** Bydd y Theatr Genedlaethol yn galw fewn i iard yr ysgol i wneud perfformiad byr.

**DYDD IAU 14eg – BLWYDDYN 3, 4 a 5 – (BORE)** – Bws i'r Neuadd Fawr ar gyfer gweld 'When the Moon Spun Round'

**DYDD IAU 14eg – DERBYN, BL.1 a 2 – (PRYNHAWN)** – Bws i'r Neuadd Fawr ar gyfer gwylio 'Remarkable Rhythm'

**DYDD GWENER 15fed – MEITHRIN PLANT TRWY'R DYDD** – Bws i'r Neuadd Fawr ar gyfer gwylio 'We Touch, We Play, We Dance'

Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £4 gan bob plentyn (ar wahân i'r plant rhan-amser) ar gyfer yr Ŵyl Agor Drysau – bydd hyn yn talu am y bysiau a'r tocynnau mynediad. Hoffwn ddiolch i Nia Evans, Is-gadeirydd y Llywodraethwyr am wneud cais i dderbyn grant 'Ewch i Weld' er mwyn lleihau'r costau. Derbyniom grant o £1,000 i gefnogi gyda'r ymweliadau hyn. Bydd £4 yn ymddangos ar eich ParentPay erbyn diwedd y dydd heddiw.

**Nosod Agored i drafod cynnydd eich plentyn**

Byddwch wedi derbyn dolen i MS Bookings er mwyn trefnu amser cyfleus ar gyfer trafod cynnydd eich plentyn gyda'r athrawon dosbarth ar naill ai Dydd Llun 18fed neu ddydd Mawrth 19eg o Fawrth.

**Beiblau**
Mae aelod o Gymdeithas y Beiblau yn ymweld â Blwyddyn 5 yn wythnosol yr hanner tymor hwn, yn dilyn ymweliadau â Blwyddyn 6 ddechrau'r tymor. Maent yn cynnig Beibl i bawb fyddai'n dymuno derbyn un. Os hoffech dderbyn Beibl am ddim cliciwch yma os gwelwch yn dda. Bydd y beiblau yn cael eu harchebu wythnos nesaf.

**Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd**
Mae yna sesiynau ar gyfer cefnogi rhieni a phlant yn emosiynol yn cael eu rhedeg yng Nghanolfan Integredig yr Eos am 5 wythnos yn cychwyn ar yr 16eg o Ebrill 2024. Am fanylion cysylltu ewch i'r poster sydd wedi'i gynnwys ar ddiwedd y llythyr hwn.

**Calendr Hanner Tymor**
Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

**Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf**
Bydd y dydd Llun cyntaf wedi gwyliau'r Pasg, Ebrill 8fed, yn ddiwrnod H.M.S (Hyfforddiant Staff)
Bydd tymor yr haf yn cychwyn i blant felly ar ddydd Mawrth y 9fed o Ebrill.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**08/03/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru



@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

### *Urdd Regional Eisteddfod, Ceredigion – TOMORROW*

*A letter has been shared with you about the details of the Regional Eisteddfod tomorrow - click here to read the letter again.*
*Best wishes to all who will compete at the Pavilion in Pontrhydfendigaid (SY25 6BB)*
*The Regional Dance Eisteddfod will be held on Tuesday 12th March at Aberaeron Comprehensive School. A bus has been arranged.*

### *TEKKERS – Year 6*

*Best wishes to some of the Year 6 pupils who will be filming for the Tekkers program next Monday.*
*The television company has already shared the information with you as parents, and the children have been in a Teams meeting to understand the routine of the day. The bus will leave the school on Monday morning, the 11th of March at 10:15am, and return to the school around 8:00pm.*

### *Opening Doors Festival – NEXT WEEK*

### *Message from Arad Goch:*

*The 10th festival of AGOR DRYSAU - OPENING DOORS will be held 12-16/03/24 when visitors come from all around the world to Aberystwyth to enjoy live performances of all types. This is a post-Brexit and post-Covid19 opportunity for artists and companies from Wales sharing platforms with colleagues from other countries. The Festival is also important for children and young people in the area to watch international work that they would not have the opportunity to see otherwise.*




*Full timetable on the website: https://agordrysau.cymru/ with something for everyone!*

***TUESDAY 12th - YEAR 6 -*** *Year 6 pupils to go see 'Yr Hogyn Pren' at the prom in the early afternoon, before going to Arad Goch to watch 'Owl at Home'.*

***WEDNESDAY 13th - EVERYONE -*** *The National Theatre will call into the school yard to do a short performance.*

***THURSDAY 14th - YEARS 3, 4 and 5 - (MORNING) -*** *Bus to the Great Hall to see 'When the Moon Spun Round'*

***THURSDAY 14th - RECEPTION, YRS.1 and 2 - (AFTERNOON) -*** *Bus to the Great Hall to watch 'Remarkable Rhythm'*

***FRIDAY 15th - MEITHRIN ALL-DAY CHILDREN -*** *Bus to the Great Hall to watch 'We Touch, We Play, We Dance'*

*We kindly ask for a contribution of £4 from each child (apart from the part-time children) for the Open Doors Festival - this will pay for the buses and entry tickets. I would like to thank Nia Evans, Vice-Chair of the Governors for applying to receive a 'Go and See' grant in order to reduce the costs. We received a grant of £1,000 to support these visits. £4 will appear on your ParentPay by the end of the day today.*

### *An Open Evening to discuss your child's progress*

*You will have received a link to MS Bookings in order to arrange a convenient time for discussing your child's progress with the class teachers on either Monday 18th or Tuesday 19th March.*

***Bibles***

*A member of the Bible Society visits Year 5 weekly this half term, following visits to Year 6 at the beginning of term. They are offering a Bible to everyone who would like to receive one. If you would like to receive a free Bible please [click here.]*

***Parenting and Family Support***

*There are sessions for supporting parents and children emotionally, and take place at Yr Eos Integrated Children's Centre for 5 weeks starting on the 16th of April 2024. For contact details go to the poster included at the end of this letter.*

***Half Term Calendar***

*Here is the link to the [Half Term Calendar] for this half term. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.*

***Important dates next half term***

*The first Monday after the Easter holidays, April 8th, will be an I.N.S.E.T day (Staff Training)*
*The summer term will therefore start for children on Tuesday the 9th of April.*

***If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***08/03/2024***
www.ysgolgymraeg.cymru

